Gofynion Tystiolaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Twf Swyddi Cymru

Mae'r rhestr isod yn nodi'r dystiolaeth y mae angen ei darparu er mwyn ichi allu cael eich ystyried ar gyfer un o swyddi Twf Swyddi Cymru.
Os nad ydych yn gallu darparu'r dystiolaeth ganlynol, ni chewch barhau i gymryd rhan yn rhaglen Twf Swyddi Cymru.

Tystiolaeth o'ch statws 'di-waith' gan ddibynnu ar eich oedran:

16-17 oed	Llythr cyfeirio Twf Swyddi Cymru oddi wrth Gyrfa Cymru
18-24 oed	Llythr cyfeirio Twf Swyddi Cymru oddi wrth Ganolfan Byd Gwaith - Cysylltwch a eich hyfforddwr gwaith

AC

Bydd gofyn I chi ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- Eich Rhif Yswiriant Gwladol, e.e. eich cerdyn Yswiriant Gwladol neu lythyr gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

AC

Un o'r canlynol fel tystiolaeth bod gennych yr hawl gyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU:

- Cerdyn Yswiriant Gwladol, neu lythyr oddi wrth Cyllid a Thollau EM
- Pasbort llawn (o aelod-wladwriaeth o'r UE)
- Pasbort llawn (nad yw o aelod-wladwriaeth o'r UE):
    - Pasbort sydd naill ai wedi ei gymeradwyo â'r geiriau *'indefinite leave to remain – proceed'* (statws preswylydd sefydlog) neu sy'n cynnwys trwyddedau gwaith neu breswyl neu stampiau fisa (sydd heb ddod i ben), ac sy'n bodloni'r holl amodau perthnasol.
    - Mae'n bosibl bod gan rai gwladolion, nad ydynt o Ardal Economaidd Ewropeaidd, gerdyn adnabod, y mae'r Swyddfa Gartref wedi ei roi yn lle fisa, sy'n cadarnhau hawl unigolyn i aros, gweithio neu astudio yn y DU – mae'r cardiau hyn yn dderbyniol.

Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund

- Llythyr oddi wrth Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd y DU yn rhoi caniatâd amhenodol i aros, (*'indefinite leave to remain'*)(statws preswylydd sefydlog)
- Tystysgrif geni/mabwysiadu (o aelod-wladwriaeth o'r UE)
- Trwyddedau preswyl ar gyfer gwladolion tramor (fel arfer yn y pasbort)
- Tystysgrif briodas/partneriaeth sifil (os oes gan eich partner yr hawl gyfreithiol i fyw yn y DU, a'i bod hi'n bosibl darparu tystiolaeth).

AC

Un o'r canlynol fel tystiolaeth ar gyfer profi oedran – hy eich bod rhwng 16 a 24 oed:

- Tystysgrif geni
- Trwydded yrru lawn (o'r UE)
- Pasbort llawn
- Cerdyn adnabod cenedlaethol (o'r UE)
- Tystysgrif ar gyfer arf tanio/trwydded ar gyfer dryll
- Contract cyflogi/slip talu (os yw eich dyddiad geni arno)
- Datganiad pensiwn (os yw eich dyddiad geni arno)
- Tystiolaeth eich bod yn derbyn budd-daliadau gwladol sy'n berthnasol i oedran
- Llythyr/cadarnhad oddi wrth sefydliad addysg (os yw'n berthnasol).

AC

Un o'r canlynol fel tystiolaeth o'ch cyfeiriad ac i brofi eich bod yn byw yng Nghymru:

- Dogfennau/cytundeb tenantiaeth
- Gohebiaeth/datganiad morgais
- Datganiad diweddar oddi wrth fanc/cymdeithas adeiladu/cwmni cardiau credyd/undeb credyd
- Bil ynni/ffôn cartref diweddar neu ohebiaeth/bil treth cyngor
- Tystiolaeth eich bod wedi eich cofrestru ar y gofrestr etholiadol
- Gohebiaeth oddi wrth gyflogwr/cynllun pensiwn
- Trwydded yrru lawn (o'r UE)
- Tystysgrif ar gyfer arf tanio/trwydded ar gyfer dryll
- Llythyr/cadarnhad oddi wrth berchennog y tŷ (y teulu/y sawl sy'n darparu llety)
- Llythyr yn rhoi gwybod am fudd-daliadau/pensiwn gwladol
- Gohebiaeth oddi wrth Cyllid a Thollau EM
- Cerdyn/datganiad rhent
- Gohebiaeth oddi wrth gyfreithiwr.

Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund